



Department
of Health &
Social Care

Rheolau am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid mewn perthynas â gofalu am bobl yn ystod y pandemig Coronafeirws

Fersiwn Hawdd ei Darllen o:
Y Ddeddf Galluedd Meddyliol
(2005) (DGM) a Threfniadau
Diogelu Rhag Colli Rhyddid
(DoLS) yn ystod y Pandemig
Coronafeirws (COVID-19).




Hawdd ei
Ddarllen

Cynnwys



Rhagarweiniad

3



Y pandemig Coronafeirws (COVID-19)

4



Gofalu am bobl yn ystod y pandemig

5



Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)

6



Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r peth gorau i chi yn ystod y pandemig

8



Rhoi'r un driniaeth i chi ag i bawb arall

10



Rheolau sy'n gorchymyn pobl i'w gael eu hedrych ar eu holau'n ddiogel pan na all pobl wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain

11



Aros dan do

15

Cyflwyniad




Mae'r wybodaeth Hawdd ei Darllen yma yn dod o Lywodraeth Prydain.



Mae'n cynnwys rheolau sy'n gorchymyn pobl sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain i'w gael eu hedrych ar eu holau yn ddiogel yn ystod y **pandemig Coronafeirws (COVID-19)**.




Mae'na gyfreithiau sy'n dweud beth mae'n rhaid i ofalwyr a gwasanaethau ei wneud os na allwch chi benderfynu ar bethau drosoch chi'ch hun.



Mae'r wybodaeth yma yn egluro sut mae'r cyfreithiau yma'n gweithio yn ystod y **pandemig Coronafeirws (COVID-19)**.


Y Pandemig Coronafeirws (COVID-19)



Mae **Coronafeirws (COVID-19)** yn salwch newydd a all effeithio ar eich ysgyfaint a'ch anadlu.



Mae'n hawdd cael Coronafeirws. Fe fydd y rhan fwyaf o bobl yn iawn, ond fe fydd rhai yn sâl iawn. Fe fydd rhai pobl yn marw os ydyn nhw'n ei gael.



Mae **pandemig** pan fydd salwch yn ymledu dros y byd.

Gofalu am bobl yn ystod y pandemig



Efallai bydd gofalwyr a phobl sy'n rhoi gwasanaethau i chi yn newid sut maen nhw'n gofalu amdanoch chi yn ystod y pandemig.




Er enghraifft, efallai bydd yn rhaid iddyn nhw:

- roi meddyginiaeth neu driniaeth newydd i chi.



- feddwl am y lle mwyaf diogel ar gyfer gofal a thriniaeth, ac fe all hyn olygu eich bod yn symud.



- gadw chi dan do ac i ffwrdd o bobl eraill i stopio chi gael Coronafeirws.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)



Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyfraith sy'n effeithio pobl sy'n 16 neu drosodd.



Mae'n gosod allan y gyfraith ar sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ar gyfer y gofal neu'r driniaeth o bobl sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain.



Mae'n rhoi hawliau i bobl sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain.



Pwy all gael ei effeithio?

Fe all pobl sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain fod â:

- **dementia**



- **Salwch meddyliol**



● **strôc**



● **anabledd dysgu**



Mae **dementia** yn salwch lle mae pobl yn cael hi'n anodd cofio pethau.



Mae **salwch meddyliol** yn salwch sy'n effeithio ar eich hwyl, eich meddwl a'ch ymddygiad.



Mae **strôc** yn lle mae rhywbeth yn stopio digon o waed rhag mynd i'r ymennydd ac mae rhan o'r ymennydd yn marw.



Mae **anabledd dysgu** yn lle mae rhywun yn ei chael hi'n anodd deall pethau.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r peth gorau i chi yn ystod y pandemig



Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhoi hawliau i bobl sydd ddim un gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain.



Fe ddylai gofalwyr a phobl sy'n rhoi gwasanaethau i chi weithio gyda chi i helpu chi i wneud penderfyniadau.



Os na allwch chi wneud penderfyniadau drosoch chi'ch hun, fe allen nhw wneud y peth gorau i chi.



Os ydyn nhw'n gwneud hyn, mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am lawer o bethau fel:

- a ydyn nhw'n gallu disgwyl nes eich bod chi'n gallu gwneud penderfyniadau drosoch chi'ch hun.



- trïo cael chi i ddeall a gwneud y penderfyniad.



- edrych ar beth wnaethoch chi ddweud oeddech chi eisiau yn y gorffennol a beth rydych chi'n ddweud rŵan.



- gwrando ar syniadau eich teulu chi a'ch ffrindiau chi.



Efallai eich bod chi wedi penderfynu yn y gorffennol byddai'n well gennych chi ryw driniaeth arbennig.

Fe fydd yn rhaid i'r bobl sy'n gofalu amdanoch chi feddwl am hyn pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau drosoch chi.




Fel arfer, os ydych chi wedi dweud bod chi ddim eisiau help meddygol arbennig a'r amser hynny, roeddech chi'n gallu gwneud y penderfyniad, fyddwch chi ddim yn cael yr help hynny.

Rhoi'r un driniaeth i chi ag i bawb arall



Mae'n rhaid i ddoctoriaid bob tro ofyn i chi cyn iddyn nhw roi unrhyw driniaeth i chi.



Ond, weithiau, mae doctoriaid yn cael rhoi triniaeth i chi, os ydych chi'n rhy sâl i gytuno i'r driniaeth.



Mae hyn yn wir i bawb sy'n rhy sâl i gytuno i'r driniaeth.



Os ydych chi wedi dweud yn y gorffennol bod chi ddim eisiau help meddygol arbennig, fyddwch chi ddim yn cael yr help hynny.



Does dim newidiadau i'r rheolau yma oherwydd y pandemig Coronafeirws.

Rheolau sy'n gorchymyn pobl i'w gael eu hedrych ar eu holau'n ddiogel pan na all pobl wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain




Mewn rhai achosion, efallai fe allwch chi gael eich gorchymyn i rywun edrych ar eich hôl chi yn ddiogel, os na allwch chi wneud penderfyniadau drosoch chi'ch hun.



Fe all hyn olygu efallai bydd pobl yn penderfynu y dylech chi aros lle rydych chi'n byw, gyda rhywun yn edrych ar eich hôl chi drwy'r amser, i'ch cadw chi'n ddiogel.




Mae enwau gwahanol i'r rheolau am hyn. Maen nhw'n dibynnu a ydych yn cael gofal yn eich tŷ chi, neu mewn cartref gofal neu ysbyty.



Os ydych chi mewn cartref gofal neu ysbyty enw'r rheolau yw 'Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid'.



Mae'r penderfyniad i ddefnyddio'r rheolau hyn wedi ei ysgrifennu i lawr. Yr enw ar hyn yw 'Awdurdodiad'.



Os ydych chi'n byw yn eich tŷ eich hun, yr enw am hyn yw 'Gorchymyn y Llys'.



Os oes Awdurdodiad neu Orchymyn y Llys yn barod, ddylai dim bod unrhyw newid yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd y pandemig Coronafeirws.



Ond mae newidiadau yn y ffordd y gall Awdurdodiad newydd ei osod i fyny yn ystod y pandemig Coronafeirws.




Newidiadau oherwydd y pandemig Coronafeirws

Fel arfer, bydd pobl iechyd proffesiynol yn cwrdd â chi ac yn gwneud yn siŵr bod yr Awdurdodiad yn iawn.




Fe fyddwch chi'n cael y cyfle i ddweud os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth yn anghywir.



Yn ystod y pandemig Coronafeirws fe allan nhw wneud hyn dros y ffôn neu drwy cysylltiad fideo.




Fe allan nhw ddal ofyn i'ch teulu chi a'ch ffrindiau chi am eu sylwadau.




Gweithredu brys

Yn arferol, fe all hi gymryd amser weddol hir i osod Awdurdodiad i fyny.



Os oes angen Awdurdodiad ar frys, fe all y cartref gofal neu'r ysbyty ddechrau 'Awdurdodiad brys' ar unwaith, cyn iddo gael ei wirio gan y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd lleol.




Os ydyn nhw'n gwneud hyn, bydd yr Awdurdodiad yn para am hyd at 7 diwrnod.

Ac fe all yr Awdurdodiad bara am gyfnod arall o hyd at 7 diwrnod ar ôl hynny, os oes angen.



Gwirio Awdurdodiad

Fel arfer, fe fydd y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd lleol yn dod ac yn gwirio bod yr Awdurdodiad yn cael ei reoli yn y ffordd iawn.



Efallai bydd hyn ddim yn bosibl yn ystod y pandemig Coronafeirws achos mae'n rhaid i ni gadw pobl yn ddiogel.

Aros dan do



Mae'r gyfraith yn dweud dylai pob aros dan do ac i ffwrdd o bobl eraill yn ystod y pandemig Coronafeirws.



Os allwch chi ddim gwneud penderfyniadau drosoch chi'ch hun ac rydych chi'n cael Coronafeirws, mae'n rhaid i chi aros dan do ac i ffwrdd o bobl eraill.




Efallai fe fydd angen i'ch gofalmwyr chi neu'r bobl sy'n rhoi gwasanaethau i chi wneud penderfyniad drosoch chi, i gadw pawb yn ddiogel o Goronafeirws.



Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod **Swyddogion Iechyd Cyhoeddus** cyn gallu gwneud yn siŵr fod pobl yn aros dan do.



Mae **Swyddogion Iechyd Cyhoeddus** yn gweithio mewn ardaloedd lleol ac yn annog pawb i fod yn iach.



Os ydych chi angen mwy o wybodaeth,
ewch i'n gwefan:

www.gov.uk/dhsc

Hawdd ei Ddarllen gan **easy-read-online.co.uk**